

Cofnodion Pwyllgor 20.10.2020 - drwy 'Zoom'

Yn Bresennol

| | |
|--------------|---------------------------|
| Cen Llwyd | Alun Davies (Yn y gadair) |
| Gareth Lloyd | Gareth Evans |
| Bryan Davies | Bleddyn Davies |
| Pît Dafis | Ann Harris |

Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorwr Cecil Jones.

Cofnodion

Cynigiwyd cofnodion mis Medi yn gywir gan y Cyng Bryn Davies ac ategwyd hyn gan y Cyng Cen Llwyd.

Datgelu Buddiannau

Wnaeth y Cynghorwyr Bryan Davies, Bleddyn Davies a Gareth Evans ddatgan diddordeb ynglŷn â chais cymorth ariannol C.Ff. I Caerwedros. Hefyd derbyniwyd datganiadau oddi wrth y Cynghorwyr Bryan Davies, Gareth Evans, Alun Evans, Cen Llwyd, Mary Davies, Gareth Lloyd ag Ann Harris ynglŷn â chyfraniadau blynyddol Neuaddau Caerwedros a Thalgarreg.

Materion yn Codi o'r Cofnodion

Tai/Cartrefu ar gyfer pob lleol Cafwyd trafodaeth ynglŷn â pha ran all y Cyngor Cymuned chwarae mewn sicrhau fod cartrefi ar gael ac o fewn cyrraedd ariannol ar gyfer pobl leol. Hefyd mae angen gweithredu i leihau'r nifer o anheddau sy'n cael eu troi yn ail gartrefi neu gartrefi gwyliau. Mae'r clerc wedi dosbarthu'r 'Ymgynghoriad ar Sefydlu Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021'. Mi fydd y Cyngor yn ymateb i'r ymgynghoriad yma. Mae yna enghreifftiau o aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu Cyngor Sir Ceredigion yn mynd yn erbyn argymhellion swyddogion cynllunio er mwyn sicrhau fod cartrefi ar gael i bobl leol o fewn eu cymuned. Mae angen newidiadau i'r amodau tai fforddiadwy i gynnwys categorïau ychwanegol o safbwynt maint ag ti. Wnaeth y Cyng Bryn Davies adrodd ar y sefyllfa ynglŷn â thai cymdeithasol. Mae tai cymdeithasol ar gael ar gyfer pobl ond nid ydy pobl leol yn dueddol o gofrestru. Deallir fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi cyfrifoldeb 'nôl i Awdurdodau Lleol ar gyfer codi stoc o dai cymdeithasol. Mae angen trafodaeth eang a phellach ar sail Genedlaethol i weithredu'r newidiadau angenrheidiol. Mi fydd y clerc yn gofyn i Un Llais Cymru i gymryd yr awenau i lywio'r drafodaeth. Mi fyddwn hefyd yn rhoi gwahoddiad i Keith Henson, Hwylusydd Tai Ceredigion i roi cyflwyniad i'r Cyngor am y cynlluniau sydd eisoes ar waith.

Cwmtydu Mae aelodau wedi ymweld â'r pentref a thynnu lluniau o'r ardaloedd sydd angen sylw brys. Mae'r sefyllfa yn gwaethygu gyda thir yn dal i gwympto i mewn i'r afon.

Heol heibio Blaenglowon Fawr at gyfeiriad Maesymeillion Wnaeth y Cyng Bleddyn Davies gadarnhau ei fod yn fwriad ganddo i dorri'r coed. Mi fydd angen cau'r ffordd er mwyn sicrhau diogelwch y cyhoedd ac y mae mewn cysylltiad gyda'r Cyngor Sir ar hyn o bryd.

Arwydd ger Capel Bwlchfyadfa Mae'r Cyngor Sir wed archebu arwydd newydd. Hefyd nodwyd fod arwyddion pentref newydd wedi eu gosod ym Mwlchfyadfa a Thalgarreg.

Gohebiaeth

Swyddfa'r Post Mi roedd y clerc wedi dosbarthu gwybodaeth ynglŷn â newid arfaethedig i'r gwasanaeth symudol ym mhentref Talgarreg. Wnaeth y Cyng Ann Harris gadarnhau na fydd yna unrhyw newid i'r gwasanaeth arferol.

CSC - Cysgodfannau Bysys Wnaeth swyddog o'r Cyngor Sir gysylltu ynglŷn â chwyn mae'r Adran wedi derbyn ynglŷn â'r panelu sydd yn eisiau o'r cysgodfan yn Llwyndafydd. Yr un ydy'r sefyllfa yng nghysgodfan Derw Stores. Mi fydd y clerc yn cysylltu gyda cwmni er mwyn cael amcangyfrif ar gyfer eu hatgyweirio.

Clwb Ffermwyr Ifanc Caerwedros Derbyniwyd cais am gymorth ariannol i sicrhau parhad y gweithgareddau pwysig sy'n cael eu cynnig gan y Clwb. Cytunwyd i wneud cyfraniad o £500.

CSC - Cau Ffordd dros dro Nodwyd fod yr heol C1006 ger Brynderw, Llwyndafydd ar gau rhwng yr 20fed a 21ain o Hydref er mwyn galluogi gwaith gwasanaeth dŵr.

Taliadau

C.FF.I Caerwedros £500.00

Neuadd Goffa Caerwedros £1,000.00

Neuadd Goffa Talgarreg £1,000.00

Unrhyw Fater Arall

Safle Gwastraff Rhydeinon Wnaeth y Cyng Gareth Lloyd ddiweddarau'r aelodau ynglŷn â'r ffaith y bydd y safle uchod ar gau drwy gydol y cyfnod clo sy'n dechrau ddydd Gwener.